04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 44

# *Datblygiad Iaith yng Nghylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin*

W. GWYN LEWIS
*Prifysgol Cymru, Bangor*

ac

ELEN GARETH
*Bwrdd yr Iaith Gymraeg*

ABSTRACT

Amcan Mudiad Ysgolion Meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o dan bump oed trwy gyfrwng y Gymraeg mewn Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi. Anelir at gyfoethogi ac ymestyn Cymraeg plant o gartrefi Cymraeg, ac at hybu dwyieithrwydd cynnar mewn plant o gartrefi di-Gymraeg. O ganlyniad, ystyrir bod gan y Mudiad ran benodol i'w chwarae yn y broses gynllunio ieithyddol yng Nghymru, a chaiff ei gynnwys ymysg y prif gyrff a sefydliadau y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydweithio â hwy i gyrraedd nifer o nodau ac amcanion yn ymwneud â chynllunio dyfodol yr iaith Gymraeg.

Serch y dybiaeth gyffredinol bod mynychu Cylch Meithrin yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad Cymraeg plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth gadarn hyd yma o blaid neu yn erbyn hynny. Fodd bynnag, dengys canlyniadau'r ymchwil penodol hwn, am y tro cyntaf, fod plant sy'n mynychu Cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin am gyfnod o flwyddyn ysgol yn datblygu'n arwyddocaol mewn ystod o sgiliau iaith gan osod sylfeini ar gyfer datblygiad ieithyddol pellach yn y Gymraeg: gwrando a deall, siarad a chyfathrebu, a sgiliau llythrennedd cynnar. Trafodir y modd yr aethpwyd ati i asesu datblygiad y plant yn y meysydd ieithyddol hyn, a chodir rhai ystyriaethau pellach er mwyn galluogi'r Mudiad i adeiladu ar

ganlyniadau'r ymchwil a pharhau i gyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

## *Cyflwyniad*

Cydnabyddir bod strwythur oedran y boblogaeth o Gymry Cymraeg yn dyngedfennol bwysig yn y broses o sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae'n amlwg y byddai'r iaith mewn perygl petai pyramid oedran wedi'i ddominyddu gan yr oedrannus yn bodoli (Aitchison a Carter, 1994: 103). Yn ôl ffigurau diweddar, dim ond 6.3 y cant o blant tair oed sy'n siarad Cymraeg gartref (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999: 4.1.6). O ganlyniad, mae addysg cyn ysgol ac addysg blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan allweddol yn y broses o gynnal a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg.

*Mudiad Ysgolion Meithrin ac addysg Gymraeg*

Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971 gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn sgil y gostyngiad a welwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae gan y Mudiad ran greiddiol i'w chwarae yn y broses o geisio adfer yr iaith, a lle allweddol yn nhwf a datblygiad addysg Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Cydnabyddir yn gyffredinol waith y Mudiad o safbwynt cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg: mynychu Cylch Meithrin, yn aml, yw'r cam cyntaf tuag at addysg Gymraeg i nifer o blant:

> These schools [Cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin] stimulate an awareness of Welsh at a critical stage, and provide a solid linguistic foundation for those children who then move on into first- and second-language Welsh classes at primary and secondary levels. (Aitchison a Carter, 2000: 4)

Ymhellach, ystyrir bod gan Fudiad Ysgolion Meithrin ran benodol i'w chwarae yn y broses gynllunio ieithyddol yng Nghymru a chaiff ei gynnwys ymysg y prif gyrff a sefydliadau y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydweithio â hwy i gyrraedd nifer o nodau ac amcanion yn ymwneud â chynllunio dyfodol yr iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996: 8). Fodd bynnag, cyn yr ymchwil penodol hwn, nid oedd tystiolaeth ystadegol gadarn ar gael i brofi bod mynychu Cylch Meithrin yn cyfrannu tuag at ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg plant.

Yn yr Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 46



yn 2002, nododd y Pwyllgor Diwylliant dri blaenoriaeth gyda golwg ar gynllunio ieithyddol yng Nghymru, sef cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, cryfhau'r iaith o fewn cymunedau, a chryfhau'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b: 8). Mae'r tair elfen hyn yn rhan annatod o waith Mudiad Ysgolion Meithrin a gellir ystyried yr hyn a gyflawnwyd gan y Mudiad dros y blynyddoedd yn enghraifft o gynllunio ieithyddol sydd wedi llwyddo i fynd yn groes i'r duedd gyffredinol o ddirywiad yn yr iaith.

Cydnabyddir bod plant ifanc yn caffael ail iaith yn gyflym mewn sefyllfa drochi ac mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhoi cyfle o'r fath i blant o gartrefi di-Gymraeg gaffael y Gymraeg mewn sefyllfa drochi naturiol (a chefnogi iaith plant sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg). Ystyrir bod caffael dwy iaith yn broses naturiol ac anffurfiol i blant ifanc cyn iddynt fod yn dair oed (Baker, 1996: 77):

> Mae plant ifanc yn dysgu iaith yn rhwydd a naturiol, yn ddigymell a bron yn ddiarwybod. 'Caffael' iaith maen nhw yn hytrach na'i dysgu. Felly, mae darpariaeth y Wladwriaeth a **Mudiad Ysgolion Meithrin** yn hanfodol o safbwynt caffael yr iaith Gymraeg ymysg plant ifanc o gartrefi Cymraeg a Saesneg. (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999: 4.1.6)

Yn y cyd-destun hwn, felly, ymddengys bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael dylanwad pwysig ar drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf trwy weithio gyda dwy garfan ieithyddol o blant: rhai o gartrefi lle siaredir Cymraeg a rhai o gartrefi lle na siaredir Cymraeg. O ran y plant o gefndir teuluol Cymraeg, mae'r gwaith a wneir yn y Cylchoedd Meithrin yn cefnogi a chadarnhau gwaith y cartref ac yn hybu sgiliau llythrennedd cynnar yn y Gymraeg. Yn hyn o beth, mae'r gwaith yn cefnogi iaith leiafrifol sy'n cael ei siarad yn y cartref gan nad yw'r iaith yn cael ei defnyddio mewn peuoedd eang yn y gymdeithas. Ar y llaw arall, mae'r plant o gefndir di-Gymraeg sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn cymryd cam mawr ymlaen i'w paratoi, yn ddelfrydol, ar gyfer addysg Gymraeg neu ddwyieithog yn nes ymlaen. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn awgrymu bod datblygiad iaith sylweddol yn digwydd pan fo plant yn mynychu Cylch Meithrin am gyfnod o flwyddyn ysgol – beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol cyn iddynt ddechrau yn y Cylch. Mae hyn yn cyd-fynd â thybiadau cyffredinol yn y maes: It is commonly held that young children pick up new languages 'naturally' and with remarkable ease, while older learners generally have a long, hard struggle to achieve even moderate fluency (Harley, 1986: xi). Mae gan Fudiad Ysgolion Meithrin swyddogaeth ddeublyg, felly: darparu addysg drochi i'r plant y mae

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 47



eu rhieni yn dymuno iddynt gaffael y Gymraeg, a chefnogi'r Gymraeg pan fo'n iaith y cartref. Cyfrifir y ddau ddull hyn – o drochi plant sy'n rhugl mewn iaith fwyafrifol mewn iaith leiafrifol a chefnogi a datblygu iaith plant sy'n rhugl mewn iaith leiafrifol – yn ffurfiau cryf o addysg ddwyieithog. Canlyniad y ddau ddull yw dwyieithrwydd ac aml-lythrennedd, ynghyd â chyfoethogi profiadau'r plant a chynnal eu hiaith leiafrifol pan fo'r iaith fwyafrifol yn gryf mewn peuoedd y tu allan i'r cartref.

Yn unol â'r hyn y mae ymchwil rhyngwladol wedi'i ddangos am effeithiolrwydd rhoi cyfle i blant gaffael iaith newydd cyn iddynt ddechrau ar eu haddysg orfodol yn yr ysgol, dengys canlyniadau'r ymchwil penodol hwn fod cyfnod mewn sefyllfa addysg drochi cyn oed ysgol yn gosod sylfeini ar gyfer datblygiad ieithyddol pellach yn y Gymraeg. Bu galw ers blynyddoedd am ymchwil i effeithiolrwydd addysg Gymraeg yn gyffredinol (Lewis, 2004) ac mae canlyniadau'r darn hwn o ymchwil yn gam mawr ymlaen tuag at gychwyn gwneud iawn am hynny. Tanlinellir ei bwysigrwydd gan y ffaith ei fod, am y tro cyntaf yn hanes addysg Gymraeg, yn edrych mewn dyfnder ar yr effaith y mae mynychu Cylch Meithrin yn ei gael ar ddatblygu Cymraeg plant o oedran cyn ysgol ac yn rhoi prawf ar ddatblygiad o'r fath.

## *Yr astudiaeth ymchwil*

### *Datblygu system monitro datblygiad iaith*

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Mudiad Ysgolion Meithrin wedi derbyn symiau sylweddol o arian llywodraeth ar ffurf grant blynyddol gan y Swyddfa Gymreig, ac yn ddiweddarach gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i bwrpas cynnal y Mudiad yn ganolog ac i ariannu staff i gynorthwyo'r Cylchoedd – ond nid i staffio Cylchoedd unigol. Grant presennol (2003–4) Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Fudiad Ysgolion Meithrin yw miliwn o bunnoedd ac adlewyrchir arwyddocâd hynny gan y ffaith mai dyma'r tro cyntaf erioed i'r Bwrdd roi grant unigol o filiwn o bunnoedd i unrhyw gorff. Yn 2001–2, derbyniodd y Mudiad £668,000, swm a gynyddodd i £700,000 yn 2002–3. Yn dilyn y cynnydd hwn yn y grant daeth yn fwyfwy amlwg bod angen sefydlu system i fonitro datblygiad y Gymraeg yn y Cylchoedd er mwyn cyfiawnhau'r gwariant sylweddol hwn o arian cyhoeddus ac i bwrpasau marchnata effeithiolrwydd gwaith y Mudiad yn gyffredinol.

Bwriad cyntaf yr ymchwil hwn, felly, oedd datblygu system o fonitro datblygiad iaith plant yng Nghylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin. Y gobaith oedd rhoi prawf ar y datblygiad ieithyddol a geir mewn plant sy'n

mynychu'r Cylchoedd Meithrin er mwyn dangos effeithiolrwydd ariannol y Cylchoedd o safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg a dangos eu gwerth o safbwynt adfer yr iaith. Ystyriwyd a oedd rhyw y plant, eu hoedran, hyd y cyfnod y buont yn mynychu'r Cylch, sawl sesiwn yr wythnos yr oeddynt yn eu mynychu, eu cefndir ieithyddol, a pha ardal yr oedd y Cylch ynddi yn effeithio ar eu datblygiad ieithyddol. Rhoddwyd prawf ar ddatblygiad ieithyddol y plant trwy lunio graddfa datblygiad iaith i'w defnyddio gan arweinyddion y Cylchoedd ddwywaith er mwyn asesu datblygiad y plant mewn tri maes ieithyddol: gwrando a deall, siarad a chyfathrebu, a sgiliau llythrennedd cynnar.

Y gobaith, o wneud yr ymchwil, oedd ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Faint o Gymraeg y mae plant yn ei chaffael wrth fynychu Cylch Meithrin?
- Pa ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad eu Cymraeg? Mae nifer y sesiynau y maent yn eu mynychu, ers faint o amser y maent yn y Cylch a pha iaith neu ieithoedd a ddefnyddir ganddynt gartref yn enghreifftiau posibl.
- Pa wahaniaeth a welir yn eu ddatblygiad ieithyddol o safbwynt eu dealltwriaeth o'r Gymraeg, eu gallu i gyfathrebu, a'u sgiliau llythrennedd cynnar?
- Pa mor hir y mae'n rhaid i blant fod yn y Cylch er mwyn gweld cynnydd yn eu Cymraeg?
- Faint o wahaniaeth a gaiff nifer y sesiynau a fynychant ar eu datblygiad yn y Gymraeg?
- A yw'r gyfradd datblygiad yn fwy, llai, neu'n gyfartal gan ddibynnu ar ba iaith a siaradant gartref?
- Ym mhle y gwelir y datblygiad mwyaf dros gyfnod o naw mis? Ai yn eu sgiliau gwrando a deall, siarad a chyfathrebu ynteu llythrennedd cynnar?

Pan ddechreuwyd ar yr ymchwil, roedd gan y Mudiad 559 Cylch o dan eu gofal ar hyd a lled Cymru, yn darparu addysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg i blant rhwng dwy a hanner a phum mlwydd oed, ac roedd y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth yn sampl cenedlaethol. Dengys y prif ganlyniadau fod plant ifanc o gartrefi Cymraeg, Saesneg, a chymysg eu hiaith sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin cyfrwng Cymraeg yn gwneud datblygiad arwyddocaol dros ystod eang o sgiliau iaith Cymraeg. Fel y byddid yn disgwyl, gwelir fel y bu i blant o gartrefi di-Gymraeg wneud cynnydd trawiadol wrth gaffael y Gymraeg yn y Cylchoedd. Mae tuedd i gredu bod addysg drochi yn fanteisiol i blant o gartrefi lle na siaredir yr iaith darged,

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 49



heb ystyried yr effaith a gaiff addysg trwy gyfrwng eu hiaith gartref ar siaradwyr iaith leiafrifol (Hickey ac Ó Cainín, 2001: 146). Er ei bod yn amhosibl gwahanu cyfraniadau cymharol y cartref a'r Cylch, mae tystiolaeth ddigonol yn yr ymchwil hwn i gasglu bod y Cylchoedd yn gwneud cyfraniad pendant tuag at ddatblygiad Cymraeg plant o gartrefi Cymraeg yn ogystal.

*Ffurflen Datblygiad Iaith*

Er mwyn casglu'r data i fonitro datblygiad iaith y plant yn y Cylchoedd Meithrin lluniwyd Ffurflen Datblygiad Iaith. Casglwyd llawer iawn o ddeunydd asesu iaith gan Awdurdodau Addysg Lleol, ACCAC, ac arbenigwyr eraill yn y maes er mwyn cael enghreifftiau o systemau monitro i'w hystyried. Prin iawn oedd y deunydd ar gyfer yr union ystod oedran hwn ac ar gyfer ystyriaethau ail-iaith. Cynullwyd grŵp bychan o arbenigwyr ar addysg gynnar a datblygiad iaith cynnar er mwyn edrych ar y ddarpariaeth a oedd ar gael a thrafod y math o system fonitro a fyddai'n addas i'w defnyddio mewn Cylchoedd Meithrin.

Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth lunio system fonitro o'r fath ar gyfer plant mor ifanc, sef o ddwy a hanner i bump oed. Cytunwyd mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro datblygiad iaith y plant oedd trwy lunio ffurflen i'w chwblhau gan yr arweinyddion, un ar gyfer pob plentyn, pan nad oedd y plant yn bresennol. Trafodwyd hefyd yr egwyddorion yr oedd angen eu hystyried wrth lunio'r raddfa datblygiad iaith ar y ffurflen, o gofio pwy oedd yn mynd i wneud yr asesu, oedran ac amrediad gallu y plant dan sylw, ac amcanion yr astudiaeth ymchwil. Penderfynwyd y dylai'r raddfa datblygiad iaith

- ganolbwyntio ar yr iaith yng nghyd-destun y Cylchoedd;
- adlewyrchu iaith holl weithgareddau'r Cylch (iaith ar draws y meysydd dysgu);
- dangos datblygiad cyffredinol iaith yn hytrach na chanolbwyntio ar rai tasgau;
- bod yn ddigon syml/eglur i arweinyddion Cylchoedd fedru dangos datblygiad iaith plentyn dros gyfnod o fisoedd a thu hwnt;
- cael ei defnyddio'n gyson yn y gwahanol Gylchoedd gan arweinyddion gwahanol;
- bod yn ddigon pendant i ddangos datblygiad dros amser;
- cynnwys holl ehangder gallu iaith rhwng camau cyntaf dysgu ail iaith a defnyddio iaith gyntaf, heb wahaniaethu rhwng datblygiad iaith gyntaf ac ail iaith;

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 50



- canolbwyntio ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei gyflawni yn hytrach na'r hyn nad yw'n gallu ei wneud; a
- chael ei gweinyddu tua phedair i chwe wythnos ar ôl i'r plentyn gyrraedd y Cylch ac yna unwaith neu ddwywaith eto yn ystod y flwyddyn ysgol.

Defnyddiwyd yr un raddfa datblygiad iaith ar gyfer plant o bob cefndir ieithyddol gan ddefnyddio continwwm iaith, a dynodwyd rhan gyntaf y ffurflen ar gyfer nodi manylion cefndir y plentyn.

Ymgynghorwyd â phedwar arbenigwr a gydnabyddir yn fyd-eang ym maes datblygiad ieithyddol plant o oedran cyn ysgol er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r raddfa datblygiad iaith. Rhoddodd yr Athro Marilyn Vihman gyngor fel arbenigwr ar ddatblygiad iaith; Dr Tina Hickey fel prif arbenigwr ac ymchwilydd Iwerddon ar Naíonraí, sef ysgolion meithrin Gwyddeleg; Dr Margaret Deuchar fel arbenigwr ar ddwyieithrwydd plentyndod; a Dr Susan Gathercole (yn wreiddiol o Unol Daleithiau America ond yn awr o Gymru) fel un o brif ymchwilwyr Cymru ar ddatblygiad iaith cynnar. Ar y cyfan roeddynt yn fodlon iawn gyda'r Ffurflen Datblygiad Iaith, ac yn credu y byddai'n dangos faint o ddatblygiad a wnâi'r plant mewn Cylch Meithrin dros gyfnod penodol o amser.

*Peilot*

Cynhaliwyd peilot ym Mehefin 2000, cyn gweithredu'r ffurflen yn genedlaethol, er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn glir o ran yr eitemau ar y raddfa datblygiad iaith, y cyfarwyddiadau gweithredu, a bwriadau'r ymchwil. Treialwyd y ffurflen mewn deg Cylch yng ngogledd Cymru: dewiswyd Cylchoedd amrywiol o ran oedran a chefndir ieithyddol y plant ac o ran ardal a maint y Cylch. Cynhwyswyd 270 plentyn yn y peilot a'r prif fwriad oedd treialu'r ffurflen yn hytrach na monitro plant unigol. Lluniwyd taflen werthuso syml er mwyn cael ymateb arweinyddion y Cylchoedd i'r ffurflen ac er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r modd y dylid gweithredu'r cam nesaf sef yr ymchwiliad cenedlaethol. Penderfynwyd holi'r arweinyddion ynglŷn â pha mor aml y dylid llenwi'r ffurflen a sawl wythnos ar ôl i'r plentyn ddechrau yn y Cylch y dylid ei llenwi am y tro cyntaf. Cafwyd ymateb ffafriol iawn i'r ffurflen yn y peilot a gwnaed rhai addasiadau iddi yng ngoleuni gwerthusiad arweinyddion y Cylchoedd ohoni.

*Ymchwiliad cenedlaethol*

Ym mis Hydref 2000, ymestynnwyd yr ymchwil yn genedlaethol trwy anfon y Ffurflen Datblygiad Iaith i 180 Cylch ar draws Cymru, sef tua thraean y

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 51



Cylchoedd ym mhob sir (22.8 y cant o holl Gylchoedd y Mudiad yn genedlaethol), gan gynnwys pob plentyn a oedd yn mynychu'r Cylchoedd yn y sampl ar y pryd. O blith y rhain, dychwelwyd 1,926 o ffurflenni o 132 Cylch (sef 73.3 y cant), sy'n ganran ymateb uchel iawn.

O ran nodweddion y Cylchoedd yn yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf hwn yn Hydref 2000, roedd amrywiaeth mawr o safbwynt eu lleoliad daearyddol, maint y Cylchoedd, nifer y sesiynau a gynhelid bob wythnos, a chefndir ieithyddol ac oedran y plant a oedd yn eu mynychu. Amrywiai nifer y plant a fynychai'r Cylchoedd yn y sampl o 4 i 40 o blant ac roeddynt wedi bod yn mynychu'r Cylch ers rhwng 10 mis a dwy flynedd ac 11 mis. Roedd y ganran o ferched (51.8 y cant) ychydig yn uwch na'r ganran ymateb o fechgyn (48.2 y cant) yn y sampl.

Gan fod y sampl yn gynrychioliadol o bob rhan o Gymru, yn naturiol cafwyd hefyd amrywiaeth o ran cefndir ieithyddol y plant. Roedd 23.5 y cant o'r teuluoedd yn yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf hwn yn deuluoedd lle siaradai'r ddau riant Gymraeg drwy'r amser (neu bron drwy'r amser) gyda'r plentyn a 39.1 y cant yn deuluoedd gyda'r ddau riant yn siarad Saesneg drwy'r amser (neu bron drwy'r amser) gyda'r plentyn. Mewn 37.4 y cant o'r teuluoedd defnyddid y ddwy iaith i raddau amrywiol. O ran dosbarthiad daearyddol, roedd 33.8 y cant o'r plant o'r gogledd-orllewin, 18.5 y cant o'r gogledd-ddwyrain, 11.3 y cant o'r canolbarth, 23.2 y cant o'r de-ddwyrain a 13.2 y cant o'r de-orllewin.

Amrywiai nifer y sesiynau a fynychid gan y plant bob wythnos yn y sampl o un i ddeg, gyda'r mwyafrif llethol yn mynychu rhwng dwy a phump sesiwn yr wythnos. Nid oedd rhai Cylchoedd ond ar agor ddwywaith yr wythnos, tra bod canran fechan ar agor am ddeg sesiwn.

Penderfynwyd gwneud astudiaeth hydredol trwy weinyddu'r Ffurflen Datblygiad Iaith ddwywaith, sef ym mis Hydref 2000 a thrachefn ym mis Gorffennaf 2001. Er mwyn edrych ar y datblygiad a fu yng Nghymraeg y plant yn y Cylchoedd dros y cyfnod hwn, gofynnwyd i'r arweinyddion a ddychwelodd y ffurflenni ym mis Hydref 2000 eu llenwi eto yn nechrau mis Gorffennaf 2001 fel bod modd casglu data ar wahanol adegau am yr un grŵp o unigolion. Y tro hwn, dychwelwyd ffurflenni 1,259 o blant o 102 Cylch Meithrin; hynny yw, mesurwyd datblygiad iaith 1,259 plentyn dros gyfnod o naw mis. Erbyn ail ran yr ymchwiliad cenedlaethol roedd 667 o'r plant wedi gadael y Cylchoedd Meithrin neu heb eu cynnwys yn y sampl am wahanol resymau. Yn amlwg, roedd nifer ohonynt wedi gadael i fynd i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd; roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod plant yn gadael Cylchoedd Meithrin ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 52



Diau bod eraill wedi gadael yr ardal yn y cyfamser. O ganlyniad, ni ellir edrych ar newidiadau mewn plant unigol mewn astudiaeth duedd neu astudiaeth dorfol fel hon gan fod unigolion gwahanol yn y sampl ar adegau gwahanol (Borg, Gall a Gall, 1983: 411–12).

Cydnabyddir, felly, nad yw'r sampl yn yr ymchwil cenedlaethol yn berffaith, ac mae'n anodd gwybod beth oedd effaith hynny ar y canlyniadau. Ceir problem ychwanegol yn y cyd-destun hwn gan nad yw'n bosibl dweud a yw'r rhai a fu'n rhan o'r ymchwil hyd y diwedd yn gynrychioliadol o'r rhai a oedd yn rhan o'r astudiaeth naw mis yn gynharach (Borg, Gall a Gall, 1983, 413).

## *Canlyniadau'r astudiaeth ymchwil*

### *Prif ganfyddiadau*

Isod rhoddir canlyniadau'r ymchwiliadau a wnaed ym mis Hydref 2000 ac yng Ngorffennaf 2001 ar ffurf canrannau dilys. Gosodir y canlyniadau ochr yn ochr er mwyn eu cymharu.

Gwelir o dablau 4.1, 4.2 a 4.3 bod y canrannau yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob gosodiad wedi cynyddu rhwng y ddau ymchwiliad. Yn yr un modd bu gostyngiad yn y canrannau yn y categori 'dim eto'. Dengys hyn bod symudiad wedi bod tuag at 'fel arfer' ar gyfer pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y categori 'fel arfer' ar gyfer rhai gosodiadau penodol. Er enghraifft, ar gyfer y gosodiad 'Ateb cwestiynau syml', cafwyd cynnydd o 38.3 y cant ym mis Hydref 2000 i 61.1 y cant yng Ngorffennaf 2001, ac yn yr un modd o 26.7 y cant i 47.1 y cant ar gyfer y gosodiad 'Ymateb i gynnwys llyfr'. Gwelwyd hefyd enghreifftiau o'r canrannau yn y categori 'dim eto' yn gostwng yn sylweddol: er enghraifft yn y gosodiad 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni', lle gwelwyd gostyngiad o 49.2 y cant i 27.5 y cant.

O ystyried canlyniadau'r ddau ymchwiliad cenedlaethol, gwelwyd yn gyffredinol bod y canlyniadau gorau (hynny yw, canran uchel o'r plant yn y categori 'fel arfer' a chanran isel yn y categori 'dim eto') yn yr adran gyntaf sef yr Adran Gwrando a Deall. O ddefnyddio'r un maen prawf, roedd canlyniadau'r Adran Siarad a Chyfathrebu yn well na chanlyniadau'r Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn y ddau ymchwiliad. Rhwng y ddau ymchwiliad gwelwyd cynnydd yn y cymedr ar gyfer pob eitem yn y tair adran. Ar gyfartaledd y cynnydd yn y cymedr oedd 0.51, sef ychydig dros hanner categori.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 53



**Tabl 4.1**
**Amleddau Adran Gwrando a Deall (canrannau)**

| | Amleddau Ymchwiliad 1 | | | | Amleddau Ymchwiliad 2 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Fel arfer | Weithiau | Dechrau | Dim eto | Fel arfer | Weithiau | Dechrau | Dim eto |
| Mwynhau gweithgareddau'r Cylch | 81.3 | 10.9 | 6.6 | 1.2 | 90.2 | 7.6 | 2.1 | 0.1 |
| Mwynhau gwylio teledu/fideos/ gwrando ar dapiau sain Cymraeg | 62.3 | 18.3 | 11.9 | 7.6 | 80.1 | 14.8 | 4.4 | 0.7 |
| Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd | 59.1 | 20 | 16.4 | 4.5 | 73.8 | 18.2 | 6.9 | 1 |
| Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan | 50.8 | 23.9 | 18.7 | 6.6 | 67.5 | 21.9 | 8.7 | 2 |
| Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr | 40.7 | 26 | 21.1 | 12.2 | 59.3 | 24.4 | 11.7 | 4.7 |
| Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg | 50.8 | 23 | 18.1 | 8.1 | 66.4 | 22.1 | 9.4 | 2.1 |
| Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori | 40.3 | 20.9 | 23.3 | 15.5 | 58.8 | 23.1 | 13.1 | 4.9 |
| Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg | 49.1 | 19.4 | 22.3 | 9.2 | 67.2 | 22.6 | 7.7 | 2.6 |
| Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg | 39.8 | 21.3 | 25.2 | 13.8 | 61.8 | 22.7 | 12.2 | 3.4 |
| Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg | 41.3 | 19.1 | 24.7 | 14.8 | 61.1 | 21 | 13.1 | 4.8 |
| Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg | 36.1 | 14.3 | 22.7 | 27 | 52.2 | 20.8 | 15.8 | 11.2 |

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 54



**Tabl 4.2**
**Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu (canrannau)**

| | Amleddau Ymchwiliad 1 | | | | Amleddau Ymchwiliad 2 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fel arfer** | **Weithiau** | **Dechrau** | **Dim eto** | **Fel arfer** | **Weithiau** | **Dechrau** | **Dim eto** |
| Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd | 46 | 19.5 | 22.8 | 11.7 | 68 | 19.5 | 10.4 | 2.2 |
| Ateb cwestiynau syml | 38.3 | 17.4 | 23.9 | 20.4 | 61.1 | 19 | 14.4 | 5.5 |
| Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, lliwiau ayyb | 40.7 | 17.1 | 27.4 | 14.9 | 63.2 | 19.4 | 13.5 | 4 |
| Dangos awydd ac ymdrech i siarad | 35.9 | 15.9 | 24 | 24.2 | 55.5 | 17.3 | 17.4 | 9.8 |
| Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml | 31.5 | 14.9 | 21.9 | 31.7 | 49.6 | 18.4 | 17.2 | 14.8 |
| Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell | 22.7 | 9.4 | 13.6 | 54.4 | 34.3 | 13.2 | 18.7 | 33.8 |
| Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell | 23 | 11.3 | 15.2 | 50.4 | 37.3 | 13.8 | 19.5 | 29.4 |
| Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol | 19.3 | 13.5 | 15.2 | 52 | 37.2 | 16.2 | 17.7 | 28.9 |
| Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni. | 17.3 | 14.5 | 19 | 49.2 | 33.5 | 17.7 | 21.3 | 27.5 |
| Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau | 18.5 | 12.5 | 16.5 | 52.4 | 33 | 16.2 | 19.6 | 31.2 |
| Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol | 20.3 | 16.3 | 26.7 | 36.7 | 40.9 | 21 | 21.9 | 16.2 |

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 55



**Tabl 4.3**
**Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar (canrannau)**

| | **Amleddau Ymchwiliad 1** | | | | **Amleddau Ymchwiliad 2** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fel arfer** | **Weithiau** | **Dechrau** | **Dim eto** | **Fel arfer** | **Weithiau** | **Dechrau** | **Dim eto** |
| Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn | 69.7 | 15.7 | 11.5 | 3.1 | 80.3 | 13.3 | 5.7 | 0.6 |
| Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun | 55.3 | 21.3 | 16.1 | 7.2 | 73.8 | 17.2 | 7.1 | 1.8 |
| Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau | 23.9 | 15.6 | 27.9 | 32.6 | 41.3 | 21.9 | 23.1 | 13.7 |
| Ymateb i gynnwys llyfr | 26.7 | 22.1 | 28.5 | 22.7 | 47.1 | 24 | 21.6 | 7.3 |
| Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori | 17.7 | 20.7 | 23.7 | 37.9 | 38.6 | 25.6 | 21.6 | 14.2 |
| Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain | 12.2 | 12.6 | 26.6 | 48.6 | 28.3 | 20.8 | 26.5 | 24.4 |
| Adnabod rhai llythrennau | 11.6 | 10.9 | 22.4 | 55.1 | 26.8 | 16.5 | 27.7 | 28.9 |
| Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyfleir | 13.4 | 13 | 27 | 46.6 | 27.8 | 19.9 | 25.8 | 26.6 |
| Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau/geiriau Cymraeg | 8.9 | 11.1 | 22.4 | 57.6 | 20.5 | 19.6 | 24.6 | 35.3 |
| Adnabod geiriau syml/cyfarwydd yn Gymraeg | 6.9 | 7 | 15.5 | 70.5 | 13.9 | 14 | 23.5 | 48.6 |
| Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy | 2.9 | 3.5 | 7.7 | 85.8 | 7.7 | 7.4 | 16.6 | 68.3 |

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 56



Ar gyfartaledd newidiodd y cymedr yn y tair adran fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adran Gwrando a Deall | +0.43 |
| Adran Siarad a Chyfathrebu | +0.54 |
| Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar | +0.58 |

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghymedrau'r Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, ond roedd mwy o le i wella yn yr Adran honno.

Yn yr Adran Gwrando a Deall y gwelwyd y cynnydd lleiaf mewn cymedr ar gyfer un eitem, sef cynnydd o 0.16 ar gyfer yr eitem 'Mwynhau gweithgareddau'r Cylch', ond dyma'r eitem gyda'r cymedr uchaf yn y raddfa yng nghanlyniadau Hydref 2000, felly nid oedd llawer o le i wella yn yr achos hwn.

Y cynnydd mwyaf yn yr Adran Gwrando a Deall oedd 0.56 (sef newid o fwy na hanner categori) ar gyfer yr eitem 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg'. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o ganeuon a rhigymau Cymraeg yn y Cylchoedd Meithrin. Yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu amrywiai'r cynnydd o 0.48 ar gyfer yr eitem 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell' i 0.67 ar gyfer yr eitem 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol'. Adlewyrcha hyn y modd y mae plant mewn sefyllfa drochi yn caffael iaith trwy ddilyn gweithgareddau eraill, er enghraifft trwy drafod cysyniadau megis maint a safle. Roedd y cynnydd cymedr lleiaf yn yr adran hon ar gyfer yr eitem 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell' ac nid oedd hynny'n annisgwyl. I blant ifanc o gartrefi di-Gymraeg, mae siarad Cymraeg yn ddigymell yn gam mawr gan nad ydynt wedi arfer defnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion. Roedd y cynnydd hwn bron yn hanner categori, beth bynnag. Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelir y newid unigol mwyaf mewn cymedr, sef cynnydd o 0.71 yng nghymedr yr atebion i'r gosodiad 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori'. Yma gwelir y bu cynnydd mawr yng ngallu'r plant i ddeall y Gymraeg a'i defnyddio i ymateb i stori a adroddir gan yr arweinydd. Y cynnydd lleiaf yn yr adran hon oedd 0.21 ar gyfer eitem 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'. Cynyddodd y cymedr o 3.52 i 3.73, felly roedd cymedr yr ymatebion i'r ymchwiliad gwreiddiol yn uchel iawn.

Dadansoddwyd y newid a fu yn y canlyniadau drwy ddefnyddio sgoriau gweddilleb sy'n dadansoddi'r newid a fu yn sgoriau'r plant o ystyried beth oedd eu canlyniad cyntaf ar gyfer pob gosodiad. Defnyddiwyd y sgoriau gweddilleb i ddadansoddi effaith gwahanol ffactorau ar ddatblygiad ieithyddol drwy ddefnyddio profion ystadegol megis *t-test*, cydberthyniad,

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 57



ANOVA, a dadansoddiad ffactoraidd. Drwy ddefnyddio'r profion hyn dadansoddwyd effaith rhyw y plant, eu hoedran, y nifer o sesiynau a fynychent yr wythnos, pa mor hir y buont yn mynychu'r Cylch, yr ardal lle lleolir y Cylch, a pha iaith a siaredir gan y teulu, ar eu datblygiad.

Dangosodd prawf *t-test* bod y newid yng nghymedrau pob gosodiad rhwng y ddau ymchwiliad yn ystadegol arwyddocaol. Dangosodd dadansoddiad o sgoriau'r plant bod sgoriau 88.7 y cant ohonynt wedi codi neu aros yr un fath yn yr Adran Gwrando a Deall, 76 y cant wedi codi neu aros yr un fath yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu ac 80.2 y cant wedi codi neu aros yr un fath yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

*Rhyw y plant*

Disgwyliwyd efallai y byddai canlyniadau'r merched yn well na chanlyniadau'r bechgyn mewn rhai achosion, ond ni ddisgwyliwyd y byddai'r gwahaniaeth mor amlwg ag a ddangosodd y canlyniadau. Roedd cymedr y merched yn well na chymedr y bechgyn yng nghanlyniadau pob achos ym mis Hydref a Gorffennaf drwy'r raddfa. Fodd bynnag, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn y cynnydd rhwng y ddau ryw. Mewn rhai achosion cynyddodd y bechgyn fwy na'r merched, ac mewn achosion eraill cynyddodd y merched fwy na'r bechgyn. Felly nid yw'r profiad o fynychu Cylch Meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin wedi ei dargedu yn fwy at un rhyw na'i gilydd. Yn yr Adran Gwrando a Deall, ar gyfartaledd roedd y newid yng nghymedr y bechgyn a'r merched yr un peth, sef cynnydd o 0.42. Yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu roedd y cynnydd yng nghymedr y merched (0.59) ar gyfartaledd ychydig yn uwch nag un y bechgyn (0.53). Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd y cynnydd yng nghymedr y bechgyn (0.50) ychydig yn uwch nag un y merched (0.49). O ystyried y raddfa yn ei chyfanrwydd, ar gyfartaledd cynyddodd cymedr y bechgyn 0.48 a'r merched 0.50.

Gwnaed prawf *t-test* i weld a oedd datblygiad ieithyddol y bechgyn a'r merched yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol. Dangosodd hyn bod y merched wedi datblygu'n ystadegol arwyddocaol fwy na'r bechgyn mewn tri gosodiad yn Adran Gwrando a Deall a thri gosodiad yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu. Datblygodd y bechgyn yn ystadegol arwyddocaol fwy na'r merched mewn un gosodiad, sef 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd'. Nid oedd eu datblygiad yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Felly, er bod y merched ar y blaen yn y ddau ymchwiliad, ychydig iawn o wahaniaethau a welwyd rhwng eu datblygiad. Mae hyn eto yn galonogol gan ei fod yn dangos nad yw'r profiad o fynychu Cylch Meithrin yn fwy manteisiol i un rhyw rhagor na'r llall.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 58



*Dyddiad geni y plant*

Ar y cyfan, ychydig o ddylanwad a gafodd oedran y plant ar eu datblygiad ieithyddol yn ystod cyfnod yr ymchwil. Yn yr Adran Gwrando a Deall dim ond ar ganlyniadau un eitem y cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol, sef, 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Ychydig o gysylltiad sydd rhwng eu hoedran a'u datblygiad yn yr adran hon. Yn ôl canlyniadau tair eitem yn yr adran hon, sef 'Mwynhau gweithgareddau'r Cylch', 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg', a 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg', po hynaf y plentyn y lleiaf tebygol ydyw o ddatblygu. Cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol ar dri gosodiad yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu, sef 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml', 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni' a 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau'. Mewn dau achos yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu, sef 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd' ac 'Ateb cwestiynau syml', po hynaf y plant y lleiaf o ddatblygiad a fu. Mae'n debyg fod y plant hynaf wedi gwneud y datblygiad hwn cyn yr ymchwiliad cyntaf ac mai sgiliau fel y rhain sy'n datblygu gyntaf wrth iddynt ddechrau mynychu Cylch Meithrin. Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelwyd y dylanwad mwyaf y mae oedran y plant yn ei gael ar ddatblygiad eu hiaith. Effeithiodd eu hoedran yn ystadegol arwyddocaol ar y datblygiad yng nghymedr pump gosodiad yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Er hynny nid oedd yn ddylanwad sylweddol iawn. Mewn dau osodiad, sef 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn' a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun', po hynaf y plentyn, lleiaf y datblygiad. Yn yr eitemau eraill roedd oedran y plant yn cael effaith i'r gwrthwyneb.

*Dyddiad cychwyn yn y Cylch Meithrin*

Mae'r cynnydd a welwyd rhwng y ddau ymchwiliad yn awgrymu bod cyfnod o naw mis (blwyddyn ysgol) mewn Cylch Meithrin yn cyfrannu at ddatblygu iaith plant.

Nid oedd llawer o amrywiaeth yn nyddiad cychwyn y plant yn sampl yr ail ymchwiliad gan fod pob un ohonynt wedi bod yn mynychu'r Cylch ers o leiaf 10 mis. Roedd tua hanner y sampl wedi cychwyn yn y Cylch ym Medi 2000. Fodd bynnag, roedd mwy o amrywiaeth yn sampl yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf. Yn ôl dadansoddiad cydberthyniad a wnaed ar ganlyniadau'r ymchwiliad hwn, roedd pa mor hir yr oedd y plant wedi bod yn mynychu'r Cylch yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau nifer fawr o'r gosodiadau. Nid oedd y cydberthyniadau yn gryf iawn, ond

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 59



effeithiodd hyd y cyfnod y bu'r plant yn y Cylch yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniad pob gosodiad yn yr Adran Gwrando a Deall a'r Adran Siarad a Chyfathrebu. Roedd y cysylltiad rhwng y canlyniadau a'u dyddiad cychwyn yn y Cylch yn ystadegol arwyddocaol ym mhob gosodiad ac eithrio tri yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Ymddengys o ganlyniadau'r ymchwil hwn mai ar eu sgiliau gwrando a deall yr effeithir fwyaf gan ba mor hir y mae plentyn wedi mynychu Cylch Meithrin.

*Nifer y sesiynau a fynychir gan y plant*

Yn ymchwiliad mis Hydref 2000, amrywiai nifer y sesiynau Cylch Meithrin a fynychai'r plant bob wythnos o un i ddeg (gydag un sesiwn yn cyfateb i hanner diwrnod). Roedd 95.4 y cant o'r plant yn mynychu rhwng un a phump sesiwn yr wythnos. Dim ond dwy sesiwn yr wythnos yr oedd 21.7 y cant o'r plant yn eu mynychu tra mynychai 23.9 bum sesiwn yr wythnos. Mynychai 3.7 y cant un sesiwn yr wythnos yn unig. Dim ond 1 y cant o'r plant a oedd yn mynychu dros bum sesiwn yr wythnos.

Yn yr ail ymchwiliad cenedlaethol yng Ngorffennaf 2001 amrywiai nifer y sesiynau bob wythnos o un i ddeg fel yn ymchwiliad mis Hydref 2000. Roedd 95.7 y cant o'r plant yn mynychu rhwng dwy a phum sesiwn yr wythnos. Gostyngodd y nifer a fynychai ddim ond dwy sesiwn yr wythnos i 13.6 y cant ac erbyn hyn mynychai 27.7 y cant bum sesiwn. Dim ond un sesiwn yr wythnos yr oedd 2.3 y cant ohonynt yn eu mynychu. Mynychai 2.2 y cant ohonynt dros bum sesiwn yr wythnos.

Yn yr Adran Gwrando a Deall, cafodd nifer y sesiynau a fynychid effaith ar ddatblygiad iaith y plant mewn saith gosodiad. Fel yn achos rhyw y plant, ychydig o gyswllt oedd rhwng eu canlyniadau a nifer y sesiynau a fynychent. Cafodd nifer y sesiynau a fynychid effaith bychan ar y newid a fu yng nghanlyniadau pump o eitemau'r Adran Siarad a Chyfathrebu, ond er bod yr effaith yn gadarnhaol, bychan oedd y cysylltiad rhwng nifer y sesiynau a'r cynnydd. Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar cafodd nifer y sesiynau a fynychid effaith ystadegol arwyddocaol ar gynnydd canlyniadau chwe gosodiad. Er hyn, ychydig o gyswllt sydd rhwng nifer y sesiynau a fynychir a'r cynnydd yn yr adran hon hefyd. Disgwyliwyd y byddai nifer y sesiynau a fynychai'r plant yn cael mwy o effaith nag y dangosodd y canlyniadau. Gwnaed dadansoddiad cydberthyniad ychwanegol i weld a oedd nifer y sesiynau yn cael dylanwad gwahanol ar blant a siaradai Gymraeg â'u rhieni o gymharu â phlant a siaradai Saesneg gyda'u rhieni. Gwelwyd bod nifer y sesiynau a fynychid yn cael mwy o effaith ar ddatblygiad plant o gartrefi Saesneg eu hiaith nag ar ddatblygiad plant o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 60



Gwelwyd y duedd hon gryfaf yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu. O hyn, felly, gellir dod i'r casgliad bod angen i blant o deuluoedd di-Gymraeg fynychu mwy o sesiynau na phlant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref er mwyn gweld cynnydd yn eu canlyniadau.

Ni chafodd cynyddu nifer y sesiynau a fynychid bob wythnos effaith mor gryf ag y disgwylid ei gweld. Cafodd nifer y sesiynau effaith ystadegol arwyddocaol ar sgoriau saith gosodiad yn yr Adran Gwrando a Deall, pum gosodiad yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu a chwe gosodiad yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd cynyddu nifer y sesiynau yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad canlyniadau pob gosodiad. Fodd bynnag, nid oedd y cydberthyniadau rhwng nifer y sesiynau a datblygiad sgoriau y plant yn gryf iawn.

*Iaith y teulu*

Roedd 23.5 y cant o'r plant a gymerodd ran yn ymchwiliad mis Hydref 2000 yn siarad Cymraeg gyda'r ddau riant, 39.1 y cant yn siarad Saesneg gyda'r ddau riant a 37.4 y cant yn defnyddio'r ddwy iaith gyda'u rhieni i raddau amrywiol.

Yn ymchwiliad mis Gorffennaf 2001 roedd 27.7 y cant o'r plant yn siarad Cymraeg gyda'r ddau riant a chanran ychydig yn uwch, sef 35.6 y cant, yn siarad Saesneg gyda'r ddau riant. Roedd ychydig dros draean o'r plant (36.7 y cant) yn defnyddio'r ddwy iaith gyda'u rhieni.

Cafodd yr iaith a siaradai'r plant gyda'u rhieni effaith ystadegol arwyddocaol ar y newid a fu yn y sgoriau ar gyfer bron pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Yn gyffredinol gwelwyd mwy o gynnydd gan y plant o gartrefi lle defnyddid llai o Gymraeg: roedd y duedd hon gryfaf yn y ddwy adran gyntaf sef yr Adran Gwrando a Deall a'r Adran Siarad a Chyfathrebu. Dyma'r unig ffactor a gafodd effaith ystadegol arwyddocaol ar y newid a fu yng nghanlyniadau pob eitem ar y ffurflen rhwng y ddau ymchwiliad cenedlaethol.

Fe effeithiodd iaith y teulu yn ystadegol arwyddocaol ar y newid a fu yng nghanlyniadau naw o'r gosodiadau yn yr Adran Gwrando a Deall, naw o'r gosodiadau yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu ac ar bob un o'r 11 gosodiad yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Yr unig osodiadau drwy'r tair raddfa nad effeithiwyd arnynt yn ystadegol arwyddocaol oedd 'Mwynhau gweithgareddau'r Cylch', 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg', 'Ateb cwestiynau syml' a 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd'. Gellir gweld o amleddau sylfaenol yr ymchwiliadau bod y rhain yn osodiadau lle roedd canran uchel o'r plant yn cyrraedd y categorïau 'fel arfer' a

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 61



'weithiau'. Felly, ar ganlyniadau'r gosodiadau a oedd yn anos eu cyflawni y cafodd iaith y teulu fwyaf o effaith. Roedd cymedr y plant yn y grŵp cyntaf, sef y rhai â Chymraeg fel iaith y teulu, wedi datblygu mwy na'r rhai yn y ddau grŵp arall ym mhob gosodiad. Yn y cyd-destun hwn, felly, mae'n galonogol nodi bod mynychu Cylch Meithrin yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r Gymraeg fel iaith y cartref yn ogystal.

Dangosodd dadansoddiad ANOVA o gymedrau gweddillebau plant o gartrefi Cymraeg, dwyieithog a di-Gymraeg mai'r plant o gartrefi Cymraeg oedd wedi datblygu fwyaf. Roedd y dadansoddiad hwn yn cymryd i ystyriaeth faint o le i wella oedd gan y plant ac yn nodi a oedd y plant wedi perfformio'n well na'r hyn a ragfynegwyd o ystyried eu sgôr cychwynnol. Yn ôl y dadansoddiad hwn roedd iaith y teulu'n dylanwadu'n ystadegol arwyddocaol ar y newid yng nghymedr bron pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Nid effeithiodd iaith y teulu ar y newid yng nghymedr gweddillebau pedwar gosodiad – gosodiadau a oedd ymysg y symlaf i ateb eu gofynion yn ôl amleddau gwreiddiol yr ymchwiliad cyntaf.

Gwnaed dadansoddiadau ychwanegol ar un garfan o blant, sef y rhai a oedd newydd gychwyn mewn Cylch Meithrin pan ddechreuodd yr ymchwil. Dangoswyd bod newid sylweddol wedi bod yng nghymedr sgoriau'r plant o gartrefi di-Gymraeg yn ystod y naw mis rhwng y ddau ymchwiliad. Roedd y newid yn fwy nag ar gyfer plant yn y sampl i gyd ar gyfer bron pob gosodiad, gyda'r gwahaniaethau mwyaf i'w canfod yn yr Adran Gwrando a Deall a'r gosodiadau cyntaf yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu.

Cymharwyd cymedr gweddillebau'r plant a oedd newydd gychwyn yn y Cylch pan wnaed yr ymchwiliad cyntaf ar sail iaith y teulu. Cymharwyd plant o deuluoedd Cymraeg, dwyieithog a Saesneg trwy ddefnyddio dadansoddiad ANOVA. Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar gyfer yr un gosodiad yn yr Adran Gwrando a Deall, felly roedd datblygiad ieithyddol y tri grŵp yn ddigon tebyg er eu bod yn dechrau ar lefel wahanol. Fodd bynnag, roedd datblygiad y plant o gartrefi Cymraeg yn ystadegol arwyddocaol well ym mwyafrif y canlyniadau yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu, yn arbennig felly yn y rhai a oedd yn gofyn am ddefnydd estynedig o'r Gymraeg ar lafar. Dim ond mewn tri chanlyniad yr oedd iaith y rhieni'n dylanwadu'n ystadegol arwyddocaol yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, ond roedd y rhain yn gofyn am fwy o fedr yn y Gymraeg nag a oedd ei angen ar gyfer rhai o'r gosodiadau eraill. Roedd iaith y rhieni yn effeithio ar ddatblygiad y plant yn arbennig yn y gosodiadau a asesai eu parodrwydd a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn estynedig.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 62



*Ardaloedd lle lleolwyd y Cylchoedd Meithrin*

Rhannwyd Cymru yn bum ardal yn y dadansoddiad, sef gogledd-orllewin, gogledd-ddwyrain, canolbarth, de-orllewin a de-ddwyrain. Gwelwyd bod yr ardal yr oedd y Cylch wedi ei leoli ynddi yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar y newid cymedrig yng ngweddillebau saith gosodiad yn yr Adran Gwrando a Deall, pedwar gosodiad yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu a phedwar gosodiad yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Fodd bynnag, nid oedd y dylanwad yn gryf iawn.

Ar gyfartaledd, yng Nghylchoedd y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain y bu'r datblygiadau ieithyddol mwyaf arwyddocaol yn yr Adran Gwrando a Deall a'r Adran Siarad a Chyfathrebu. Fodd bynnag, bu'r datblygiadau mwyaf ar gyfer un gosodiad yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu yng Nghylchoedd y canolbarth a'r de-orllewin. Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd y datblygiad mwyaf ar gyfer y ddau osodiad yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau yn y de-ddwyrain. Cylchoedd y gogledd-ddwyrain oedd ar y brig ar gyfer un gosodiad yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar a Chylchoedd y de-ddwyrain ar gyfer un arall.

Gwnaed dadansoddiad ANOVA i gymharu datblygiad cymedrig y plant o ardaloedd gwahanol o Gymru. Dangosodd y dadansoddiad hwn fod yr ardal y lleolir y Cylch ynddi yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar y datblygiad ieithyddol mewn saith gosodiad yn yr Adran Gwrando a Deall a phedwar gosodiad yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu. Yng Nghylchoedd y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain y bu'r datblygiad mwyaf yn y gosodiadau hyn ac eithrio un, sef 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau'. Yng Nghylchoedd y de-orllewin a'r canolbarth y gwelwyd y datblygiad mwyaf ar gyfer y gosodiad hwn. Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd pedwar gosodiad yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol ar sail ardal. Yn y de-ddwyrain y bu'r datblygiad mwyaf ar gyfer y ddau osodiad yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau, tra mai yn y gogledd-orllewin y bu'r datblygiad mwyaf ar gyfartaledd yn y gosodiad 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyfleir'. Cylchoedd y gogledd-ddwyrain oedd ar y brig ar gyfer y gosodiad 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy'. Felly, ar y cyfan, yn y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain y gwelwyd y datblygiad mwyaf.

*Trefn pwysigrwydd yr amrywiadau*

Yn ôl dadansoddiad ffactoraidd o ganlyniadau'r ymchwiliad cyntaf roedd pedwar dimensiwn yn cael eu mesur gan y Ffurflen Datblygiad Iaith:

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 63



1. Adran Gwrando a Deall – Gwrando ar a deall Cymraeg.
2. Adran Siarad a Chyfathrebu – Defnyddio'r Gymraeg ar lafar.
3. Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ysgrifennu peth Cymraeg.
4. Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig.

Roedd trefn pwysigrwydd yr amrywiadau a oedd yn effeithio ar ddatblygiad iaith y plant yn y gwahanol ddimensiynau yn amrywio. Y newidynnau a effeithiai ar y dimensiynau 'Gwrando ar a deall Cymraeg', 'Defnyddio'r Gymraeg ar lafar' ac 'Ysgrifennu peth Cymraeg' oedd iaith y teulu, nifer y sesiynau, dyddiad cychwyn, a rhyw y plant. Nid oedd nifer y sesiynau a fynychai'r plant yn effeithio ar y dimensiwn 'Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig'. Y newidynnau a effeithiodd fwyaf ar ganlyniadau'r plant ar gyfer y dimensiwn hwn, yn eu trefn, oedd iaith y teulu, dyddiad cychwyn yn y Cylch, a'u rhyw. Iaith y teulu oedd yr amrywiad pwysicaf a effeithiai ar y dimensiynau yn y tri ymchwiliad (sef y peilot yn y gogledd-orllewin a'r ddau ymchwiliad cenedlaethol).

*Dilysrwydd y Ffurflen Datblygiad Iaith*

Cafodd dilysrwydd cynnwys y Ffurflen Datblygiad Iaith ei sefydlu gan y grwpiau ymgynghorol arbenigol y cyfeiriwyd atynt eisoes. Trafodwyd dilysrwydd a defnyddioldeb y ffurflen gyda'r grŵp arbenigol ac ymgynghorwyd ag arbenigwyr yn y maes, sef yr Athro Marilyn Vihman, Dr Tina Hickey, Dr Margaret Deuchar a Dr Susan Gathercole. Cytunwyd ar y meini prawf dilysrwydd a ganlyn, sef y graddau yr oedd y prawf yn cydberthyn gyda newidynnau eraill, er enghraifft rhyw y plant, eu hoedran, iaith y teulu, dyddiad cychwyn yn y Cylch, a nifer y sesiynau a fynychent yr wythnos.

Mesurwyd dibynadwyedd y Ffurflen Datblygiad Iaith drwy ddefnyddio mesur alpha Cronbach, sy'n mesur dibynadwyedd mewnol. Gwelir o Dabl 4.4 bod sgôr alpha uchel ar gyfer y tair adran, gan ddangos bod y gwahanol adrannau yn gyson yn mesur yr un nodwedd. Gwelir hefyd bod mesur alpha uchel ar gyfer y raddfa gyfan, gan ddangos bod y Ffurflen Datblygiad Iaith yn ei chyfanrwydd yn gyson. Defnyddiwyd y sampl cenedlaethol i wirio'r dilysrwydd. Derbynnir yn gyffredinol bod sgôr alpha o dros 0.70 yn uchel. Math arall ar ddilysrwydd yw dilysrwydd ffactoraidd. Er mwyn gweld a yw'r tair graddfa yn un raddfa gyflawn ynteu a oes tair is-raddfa annibynnol gwnaed dadansoddiad ffactoraidd.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 64



**Tabl 4.4**
**Dilysrwydd Alpha**

| **Adran** | **Alpha Y1** | **Alpha Y2** |
|---|---|---|
| Gwrando a Deall | 0.9531 | 0.9461 |
| Siarad a Chyfathrebu | 0.9772 | 0.9643 |
| Sgiliau Llythrennedd Cynnar | 0.8957 | 0.9233 |
| **Y raddfa gyfan** | 0.9743 | 0.9739 |

Rhannodd y gosodiadau yn dri dimensiwn y gellir fwy neu lai eu henwi yn:

Ffactor 1 – Gwrando, deall a mwynhau.
Ffactor 2 – Siarad a chyfathrebu yn Gymraeg.
Ffactor 3 – Sgiliau llythrennedd cynnar.

Mae'r rhaniadau hyn yn agos iawn i'r modd y rhannwyd y gosodiadau ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Gwelir, felly, er bod y raddfa yn un raddfa gyfan-sawdd yn mesur datblygiad iaith yn gyffredinol yn ôl y sgôr alpha uchel a gafodd y raddfa gyfan, bod yma hefyd dair is-adran.

## *Gwendidau a chyfyngiadau'r ymchwil*

*A ellir profi mai dylanwad y Cylch Meithrin sy'n cael ei fesur yma?*
Mae'n anodd gwybod beth yw cyfraniad annibynnol Mudiad Ysgolion Meithrin i ddatblygiad iaith y plant yn y sampl. Mae'n debyg nad oedd datblygiad y plant yn y Gymraeg yn ganlyniad i fynychu'r Cylch yn unig. Mae plant yn aeddfedu yn eu meddwl heb ystyried iaith y mewnbwn. Mae plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn elwa o'u profiad o'r Gymraeg yn y cartref. Mae'n bosibl bod nifer o'r plant, er nid y cwbl, wedi dod i gysylltiad â'r Gymraeg y tu allan i'r Cylch, er enghraifft mewn siopau, gyda theulu estynedig a chyda cymdogion.

Fodd bynnag, dewiswyd yr eitemau yn y Ffurflen Datblygiad Iaith yn bwrpasol er mwyn adlewyrchu gweithgareddau'r Cylch, er enghraifft 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg', 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni' a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'.

Gellir hefyd gymharu y datblygiad a wnaeth plant o gartrefi Cymraeg, Saesneg a dwyieithog ar y raddfa datblygiad iaith. Mae'n debyg bod

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 65



datblygiad y plant o gartrefi Saesneg gan mwyaf, er nad yn gyfan gwbl, yn deillio o fynychu'r Cylch ac o dderbyn addysg drochi. Fel y gwelwyd o'r canlyniadau roedd datblygiad y plant o gefndir Saesneg yn sylweddol. Ar y cyfan roedd eu datblygiad yn tueddu i fod yn fwy na'r rhai o gefndir teuluol Cymraeg a dwyieithog. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y plant o gefndir Saesneg yn dechrau o fan is o ran gwybodaeth ieithyddol a bod ganddynt, felly, fwy o le i ddatblygu. Ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod profiad trochi yn y Cylchoedd yn cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad iaith plant o gartrefi lle na siaredir Cymraeg.

Mae'n anodd mesur cyfraniad Mudiad Ysgolion Meithrin a chyfraniad y cartref i ddatblygiad iaith plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae'n debyg bod y ddau yn rhyngweithio ac yn effeithio ar ei gilydd yn gyfochrog. Nid dylanwadau sy'n bodoli ar wahân mohonynt ac mae'n amhosibl gwahanu'r effeithiau.

Petai'r ymchwil yn ymchwil arbrofol gellid bod wedi paru'r plant yn y sampl gyda phlant o'r un ardal (a'r un sefyllfa ieithyddol deuluol) nad oeddynt yn mynychu Cylch Meithrin. Mewn gwaith ymchwil pur i asesu dylanwad mynychu Cylch Meithrin ar ddatblygiad iaith, byddai angen sampl o blant o ardal lle nad oeddynt yn clywed dim Cymraeg y tu allan i'r Cylch. Byddai'n anodd cael sampl o'r fath a sicrhau nad oeddynt yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg trwy gyfrwng dylanwadau allanol megis S4C, er enghraifft.

*Y Ffurflen Datblygiad Iaith*

Dehonglwyd gallu a lefel iaith y plant gan arweinyddion y Cylchoedd. Penderfynwyd peidio â defnyddio graddfa mwy 'ieithyddol' megis graddfa iaith Keele (Tyler, 1978) er y byddai hyn yn dibynnu llai ar fympwy arweinyddion unigol.

Mae'n debyg y byddai graddfa fwy ieithyddol yn fwy pendant, ond fe fyddai'r ffurflen yn anos i'w llenwi. Mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r arweinyddion eistedd gyda phob plentyn yn unigol i wneud prawf o natur mwy 'ieithyddol'. Byddai hyn yn cymryd llawer mwy o amser ac mae'n amheus a fyddai'r gyfradd ymateb wedi bod mor uchel. Yn ogystal, ceisiwyd osgoi termau technegol cymhleth wrth lunio'r Ffurflen Datblygiad Iaith ar gyfer yr ymchwil hwn er mwyn sicrhau y gallai'r ffurflen gael ei defnyddio'n rhwydd gan yr arweinyddion fel y ceid cyfradd ymateb uchel.

Mae'r eitemau ar y ffurflen yn gymysgedd o weithgareddau'r Cylch ac elfennau eraill sy'n cael eu datblygu y tu allan i'r Cylch. Mae'n debyg bod dylanwadau y tu allan i'r Cylch yn effeithio ar ddatblygiad y plant mewn rhai eitemau, er enghraifft 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 66



Ar y llaw arall, mae'n debyg bod eu datblygiad mewn eitemau eraill, megis 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd' yn Gymraeg, yn dibynnu bron yn llwyr ar weithgareddau'r Cylch.

Gan mai arweinyddion y Cylchoedd unigol a oedd yn dehongli a defnyddio'r Ffurflen Datblygiad Iaith, mae'n anorfod na fyddai pob un ohonynt yn dehongli'r raddfa yn yr un modd. Mae'n debyg bod rhai ohonynt wedi treulio mwy o amser yn llenwi'r ffurflenni nag eraill. Fodd bynnag, lluniwyd y raddfa gyda'r bwriad iddi gael ei llenwi gan rywun a oedd yn adnabod y plentyn yn dda, felly roedd yn anochel y byddai'n rhaid dibynnu ar yr arweinyddion i ddehongli'r ffurflen yng ngoleuni eu hadnabyddiaeth bersonol o blant unigol, gan gydnabod y byddai peth amrywiaeth yn y dehongli, o ganlyniad.

Mae tystiolaeth achlysurol bod canlyniadau rhai o'r plant wedi gwaethygu yn hytrach na gwella. Dangosodd nifer fechan o'r plant dystiolaeth o hyn: 121 (9.6 y cant) yn yr Adran Gwrando a Deall, 111 (8.8 y cant) yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu a 148 (11.8 y cant) yn yr adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Cyfrifwyd y canlyniadau hyn o'r sgoriau gwreiddiol ac nid o'r gweddillebau, felly nid yw'r rhain yn cymryd i ystyriaeth faint o le i wella oedd gan y plentyn. Gallai plentyn fod yn y categori uchaf ar gyfer pob gosodiad yn yr adran yn yr ymchwiliad cyntaf ac yn y categori agosaf i'r uchaf ar gyfer un gosodiad yn yr adran yn yr ail ymchwiliad, tra'n aros yn gyson ym mhob gosodiad arall. Byddai hynny'n ddigon i ddangos gostyngiad yn eu sgôr dros y naw mis. Gellir dehongli'r tueddiad hwn mewn sawl ffordd: i ddechrau, mae'n bosibl bod yr arweinyddion, yn anymwybodol efallai, yn disgwyl mwy gan y plant ar ôl iddynt fod yn mynychu'r Cylch ers dros naw mis, ac felly yn eu hasesu yn erbyn meini prawf llymach nag yn yr ymchwiliad cyntaf. Mae'n bosibl hefyd fod yr arweinydd yn newydd ac wedi cychwyn gweithio yn y Cylch yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ymchwiliad. Hefyd, nid oes modd gwybod a oedd y plentyn yn mynychu'r Cylch yn gyson, rhywbeth y dylid ei gadw mewn cof petai'r ffurflen yn cael ei defnyddio eto. Mae'n debyg bod rhesymau unigol, meddygol neu bersonol yn achos rhai plant. Gallai hyn awgrymu nad yw'r prawf yn hollol ddibynadwy gan ei fod yn dibynnu ar fympwy arweinyddion.

## *Goblygiadau'r canlyniadau*

Mae nifer o bwyntiau yn codi o ganlyniadau'r ymchwil hwn sy'n haeddu sylw. Mae'n glir nad yw'r datblygiad ieithyddol yn gyson ar draws pob un

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 67



o'r Cylchoedd ac y dylid cael strategaeth hyfforddi a monitro gan Fudiad Ysgolion Meithrin yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac mewn Cylchoedd unigol. Argymhellir y dylai'r Ffurflen Datblygiad Iaith gael ei defnyddio bob blwyddyn gyda phob plentyn fel bod asesu cynnydd yn y Gymraeg yn dod yn rhan o amcanion arferol y Cylchoedd. Awgrymir ehangu'r ffurflen i gynnwys elfennau y tu allan i ddatblygiad iaith, gan gymryd i ystyriaeth chwe maes dysgu y Canlyniadau Dymunol (ACCAC, 1996). Byddai gwneud hyn yn cydnabod gwaith y Mudiad wrth ddatblygu'r plant yn gyffredinol yn ogystal ag yn ieithyddol.

## *Diweddglo*

Cadarnhaodd canlyniadau'r ymchwil hwn yr hyn a dybiwyd ers tri degawd bellach, sef bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn gwneud gwaith allweddol ym maes addysg ddwyieithog ac adfer y Gymraeg. Dangosodd canlyniadau'r ymchwil bod mynychu Cylch Meithrin yn cyfrannu at ddatblygu iaith plant trwy drochi y rhai sy'n dod o deuluoedd di-Gymraeg mewn iaith newydd a thrwy gefnogi ac ymestyn Cymraeg plant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith. Mae'n amlwg o gyhoeddiadau diweddar y Cynulliad Cenedlaethol (2002a, 2002b, 2003) y bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael y cyfle i ehangu a thyfu yn y dyfodol. Hyderir y bydd y Mudiad yn adeiladu ar ganlyniadau'r ymchwil hwn ac yn parhau i weithio i gynyddu nifer y plant sy'n cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y cyfnod mwyaf ffrwythlon yn eu bywyd ar gyfer caffael iaith.

## *Cyfeiriadau*

ACCAC (1996). *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol*, Caerdydd, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

Aitchison, J. W. a Carter, H. (1994). *A Geography of the Welsh Language, 1961–1991*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

Aitchison, J. W. a Carter, H. (2000). *Language, Economy and Society*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

Baker, C. (1996). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (2nd edn.), Clevedon, Multilingual Matters.

Borg, W. R., Gall, M. D. a Gall, J. P. (1983). *Educational Research: An Introduction,* Efrog Newydd, Longman.

04 Lewis WJE.qxp 06/12/2004 10:05 Page 68



Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996). *Strategaeth ar Gyfer yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999). *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000–2005*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002a). *Dyfodol Dwyieithog,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002b). *Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg*, Y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003). *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Harley, B. (1986). *Age in Second Language Acquisition*, Clevedon, Multilingual Matters.

Hickey, T. ac Ó Cainín, P. (2001). 'First language maintenance and second language acquisition of a minority language in kindergarten' (argraffiad personol o bennod a ymddangosodd mewn trafodion cynhadledd yn Sbaen ac a gyhoeddwyd ar CD-ROM, 137–51).

Lewis, W. G. (2004). 'Addysg gynradd Gymraeg: trochi ac ymestyn disgyblion', *Cylchgrawn Addysg Cymru/The Welsh Journal of Education*, 12, 2, 49–64.

Tyler, S. (1978). *Keele Pre-school Assessment Guide Developed for Department of Education and Science Research Project: Play, Exploration and Learning*, Keele, Keele University Library.